# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fercher 16eg o Fedi 2020 am 8.00yh o bell drwy Zoom.

**PRESENNOL:** Cyng H James, W Evans, G Evans, J Phillips, R Gallie a K Bowen (clerc).

**YMDDIHEURIADAU:** Cyng D Lewis, J Lewis (CSC).

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion cyfarfod 29ain o Orffennaf a derbyniwyd yn gywir.

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB:** Dim

**MATERION YN CODI:**

Mae'r holl ddogfennau angenrheidiol ar gyfer newid llofnodwyr banc wedi eu derbyn ac fe fyddant yn cael eu danfon i'r banc yn fuan.

Mae Mr G James wedi cytuno i pori'r tir cyngor hyd nes gall y Cyngor ei hysbysebu am rhent.

Mae'r afon Sien yn Cwmbach wedi ei chlanhau gan CSC.

**CYFETHOL:**

Yn dilyn hysbysiad am sedd wag ar y Cyngor Cymuned mae'r Cyngor wedi cytuno i gyfethol Mr I Saer i'r Cyngor Cymuned.

**CAE CHWARAE BLAENWAUN:**

Trafododd y Cyngor nifer o faterion: trefnu torri porfa yn rheolaidd, cael cyfarpar chwarae plant newydd a datblygu gardd bywyd gwyllt.

**GOHEBIAETH:** Dim

**DERBYNIADAU:**

| | |
|---|---|
| Watkins – rhent tir | £102.75 |
| CCC – praesept 2il rhandaliad | £2666.67 |

**BILIAU:**

| | |
|---|---|
| Dŵr Cymru – cae chwarae Blaenwaun 04/02/20 – 16/07/20 | £12.86 |
| SSE – trydan i'r neuadd gymunedol 05/05/20 – 23/07/20 | £41.47 |
| K Bowen – postio/treuliau'r clerc 2019/20 | £77.60 |

**ADRODDIAD ARIANNOL:**

| | |
|---|---|
| Cyfrif Trysorydd | £11,096.47 |
| Cyfrif Busnes | £6854.10 |

**CYNLLUNIO:**

PL/00232 & PL/00235 – Newid defnydd, newidiadau a ymestyn capel i fod yn dŷ – Capel y Graig, Cwmbach, Hendygwyn ar Daf SA34 0DR.

**U.F.A.**

Mae cerbyd sydd wedi ei barcio yn achosi rhwystr ar y lon werdd o Gwmbach i Iet Y Garn – clerc i gysylltu a CSC.

Gwnaeth y clerc hysbysu'r Cyngor o'i fwriad i ymddiswyddo o swydd y clerc ar ddiwedd mis Mawrth 2021 – swydd y clerc i'w hysbysebu mewn ychydig.

Gan fod yna ddim rhagor o fusnes fe wnaeth y Gadair ddiolch i bawb oedd wedi mynychu a datganiodd fod y cyfarfod ar gau

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fercher 18fed o Dachwedd am 8.00yh drwy Zoom.**